YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Rhyddid
Gwirionedd · Cariad

Cynnwys

"DOS I'TH YSTAFELL."
NODIADAU'R GOLYGYDD.
DRYGAU'R DREF A'R MODD I'W SYMUD.
PA BETH A GRED YR IDDEWON?
ADOLYGIADAU.
MARWGOFION.
NODION YR EGLWYSI.



Cyf. xxxvi
Chwef., 1936
Rhif 2

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. L. Jones, 38, Monthermer Road, Cathays, Cardiff.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr,—J. D. Lewis a'i Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

LLYFR NEWYDD

SARNICOL

'Blodau Drain Duon'

Pris 1s. (Drwy'r Post, 1s. 2c.)

Anfoner i

SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

Cyhoeddwyd yr Argraffiad Cyntaf ychydig cyn Nadolig.
Y mae'r Ail Argraffiad yn awr yn barod.

CERDDI DIGRI

A RHAI PETHAU ERAILL

Gan IDWAL JONES.

Yn cynnwys limrigau, braslun o ffarsiau byrion, a'r cerddi ac adroddiadau a ganlyn—*Un Dyn Bach ar ôl, Eistedd ar ben Llidiard, Ie wir! Twt, twt! Swot, Siani, Marged, Leisa, Caru Mari, Profiadau Hyfryd, Profiadau Diflas, Ymadawiad Neli, Diniweidrwydd Dyn, etc.*

Anfonwch at y Cyhoeddwyr:

J. D. LEWIS A'I FEIBION, GWASG GOMER, LLANDYSUL.

Pris 2s., Drwy'r Post, 2s. 3c.

YR YMOFYNNYDD

. . CYLCHGRAWN MISOL . .
CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU

Golygydd : Y Parch. T. L. JONES

CYFROL XXXVI. CHWEFROR, 1936. RHIF 2

" DOS I'TH YSTAFELL—."

GWELWCH . . . pa fodd y rhodioch yn ddiesgeulus : nid fel annoethion ond fel doethion . . . yn deall beth yw ewyllys yr Arglwydd.
Ephesiaid v : 15, 17.

* * *

HAWS beirniadu na bod yn gywir.

* * *

NID yw llwyddiant ddim : yr ymdrech yw'r oll.—BROWNING.

* * *

LLYMA flaen dy dafod ar eingion y gwirionedd.—PINDAR.

* * *

MAE pob dyn yn gyfrol ynddo'i hun, ond i chwi wybod sut i'w ddarllen.—CHANNING.

* * *

MAE angen yn diwygio y tlawd, ac mae syrffed yn diwygio y cyfoethog.—SACITUS.

* * *

PAN y byddi yn adeiladu carchar, gwell i ti ei adeiladu gan feddwl beunydd ei bod yn bosibl mai ti a'th blant fydd yn byw yn ei gelloedd.—ELIZABETH FRY *mewn llythyr at frenin Ffrainc.*

* * *

TYBIWN fod yn rhaid i ddyn gyrhaedd rhyw radd neillduol o ddaioni cyn dyfod o hyd i Dduw. Ond nid yw Duw yn dweyd, " Yr wyf fi ar derfyn y Ffordd ". Dywaid, " Myfi yw y Ffordd. Myfi ydyw'r Heol o dan eich traed, y ffordd sydd yn cychwyn pa le bynnag y byddwch ".

Os mai yn y ffos yr ydym, mae y ffordd yn dechreu yn y Ffos. Y foment y trown i gerdded yn y ffordd, yr ydym yn cerdded yn Nuw. Y foment y trown ein wynebau i'r un cyfeiriad ag ef, yr ydym yn cerdded gyda Duw.—HELEN WODEHOUSE.

* * *

O DDUW, yr hwn ymhob oes a ysgrifennaist dy ddeddfau yng nghalonnau dynion, fel yr ufuddhaent iddynt, dyro i ni wrando ar dy lais Di, a bod yn ufudd i'th ewyllys. Dysg i ni ryw wers newydd bob dydd, ac ysgrifenna dy ddeddfau yn nyfnder ein calonnau, fel y dygom ffrwyth er gogoniant i'th enw Di.—Amen.

Nodiadau'r Golygydd.

Marw'r Brenin.

Bu farw y Brenin Sior y Bumed ar nos Lun, Ionawr yr ugeinfed. Am ychydig ddyddiau yn unig y bu yn nychu o'r afiechyd olaf hwn ; cafodd ddiwedd tawel ac heddychlon.

Tuedd sydd i ganmol brenhinoedd a " gwŷr mawr " i ormodedd ar adeg eu marw. Ychydig o frenhinoedd sydd yn Ewrop heddiw, ond yn y mwyafrif efallai o wledydd y cyfandir prin fu'r amserau pan y mentrid gwneyd dim arall ond canmol y brenin. Bu canmol di-dor ar ein diweddar frenin ni yn ystod y bythefnos diweddaf, ond yr argraff greid oedd y buasai'n anodd i'r *cynic* chwerwaf ddarganfod nodyn o ragrith yn yr oll a ddywedwyd.

Yr oedd Sior y Bumed wedi llwyddo i ennill rhywbeth gan mil gwell na'r parch a'r edmygedd dybir fod yn ddyladwy i frenin fel brenin ; yr oedd wedi llwyddo fel dyn i ennill serch y bobl.

Gŵyr pob plentyn ysgol heddiw mai mewn enw yn unig y mae brenin Lloegr yn teyrnasu. Ond er hynny mae llawer yn dibynnu ar gymeriad a phersonoliaeth y brenin. Yr oedd cymeriad a phersonoliaeth Sior y Bumed yn gyfryw fel ag y llwyddodd i gadw yn fyw yng nghalonnau y werin barch at ei swydd, er iddynt wybod yn gywir beth a olygai'r swydd.

Ni fu achos i'r bobl feddwl i'r brenin erioed ddefnyddio ei ddylanwad o blaid gormes ac anhegwch cymdeithasol : ar y llaw arall ni ddygwyd y goron i anfri fel llawer coron cyn hyn gan anfoesoldeb personol, nac ychwaith gan y byw ysgafn, gwag, a di-bwrpas sydd wedi nodweddu llawer i lys brenhinol.

Hyd y gellir barnu nod bywyd y brenin oedd gwasanaethu ei wlad goreu y gallai yn y cylch benodwyd iddo. Heb law bod yn gydwybodol yn ei waith ymddengys ei fod yn onest yn ei ymarweddiad ac yn syml ac yn gyfeillgar yn ei berthynas a'i gyddynion.

Efallai mai dyn o'r fath yma yn unig allai lwyddo i gadw gorsedd Prydain yn ddiogel yn y tymor terfysglyd wedi'r rhyfel, a rhaid cofio i'r Anthem Genedlaethol fod yn amhoblogaidd ym Mhrydain hyd yn oed tua 1919—1921. Er nad oedd Sior y Bumed yn " ddyn mawr ", hwyrach iddo wneyd, o dan yr amgylchiadau, fwy nag un brenin o'i flaen i ddiogelu y frenhiniaeth ym Mhrydain.

Am y brenin newydd, ofer yw proffwydo. Mae yn ieuanc, ond mae ganddo brofiad helaeth o'r byd. Mae yn boblogaidd, ac mae wedi mynegu mewn gair a gweithred droion, ei gydymdeimlad â'r dyn sydd ar lawr. Mae wedi dweyd pethau llym am ein drygau cymdeithasol, ac yn ôl pob hanes, buasai wedi

dweyd pethau llymach pe y caniateid iddo. Mae arno angen yr oll o'i adnoddau a'i brofiad i hwylio ei long yn ddiogel yn y dyddiau o gyfnewid sydd i ddod.

* * *

Gwyddor a Chrefydd.

Aiff y ddadl ar le Crefydd a Gwyddor mewn bywyd yn ei blaen am dro eto, a thra y pery y frwydr, diddorol ydyw pob gair newydd gan feddylwyr blaenllaw. Cyhoeddodd gweinidog yn Lloegr yn ddiweddar ei fod yn mynd i bregethu ar y testun hwn, a gwahoddodd bob un a deimlai ddiddordeb i ddanfon neges iddo. Gyda llawer eraill ysgrifennodd Bernard Shaw, a dyma a ddywedodd ef: "Os nad yw Crefydd yn Wyddor mae yn anwiredd. Os nad yw Gwyddor yn grefyddol nid ydyw ond dewiniaeth ddu. Yr ydym ni yn y dyddiau hyn wedi cymysgu y ddau beth yn ddrwg iawn. Yr hyn sydd eisiau ydyw rhagor o grefydd a rhagor o wyddor o'r ddwy ochr."

* * *

Rudyard Kipling.

Onibai am farw'r brenin, buasem wedi clywed llawer mwy am fywyd a gwaith Syr Rudyard Kipling, bardd a llenor fu farw yn nechreu mis Ionawr. Fel ag yr oedd, talwyd llawer teyrnged frwd i'w waith ac i'w gelf.

Bardd y milwyr oedd Kipling, yn canu beunydd am rinweddau'r milwr a gogoniant y concrwr a'r dyn sydd yn "gwneyd pethau" —y *man of action*. Efe fu eilun y Prydeinwyr garant ymfalchio yn yr Ymherodraeth Brydeinig ac a gredant mai'r Sais ydyw arglwydd penodedig y greadigaeth.

Canodd ac ysgrifennodd Kipling yn arbennig am waith ac antur a swyddogaeth y dyn gwyn yn yr India. Er fod ei genadwri yn anathema i werinwyr pybyr, darllennid ei lyfrau, yn enwedig ei nofelau gan filiynau o bob gradd a syniad. Yr oedd swyn arbennig i blant yn ei nofelau am anifeiliaid a'r gwyllt-leoedd. Yr oedd yn wir yn ŵr o ddychymyg byw dros ben, ac yn grefftwr ar iaith.

Pe buasai Kipling farw ychydig flynyddoedd yn ôl amrwd fyddai teyrnged y mwyafrif mawr i'w waith oherwydd natur ei genadwri, ond erbyn heddiw mae gweriniaeth dan gwmwl a rhyw ddihuno llechwraidd ar ein edmygedd greddfol o'r dyn cryf.

Mae'n awgrymiadol fod gweithiau Kipling yn boblogaidd neilldu ol yn yr Eidal heddiw.

"Drygau'r Dref a'r Modd i'w Symud."

Mae llawer iawn o bobl wedi eu geni i'r byd yn amddifad o synnwyr cyffredin, mae ereill yn cael eu gyrru i ddyryswch meddwl gan amgylchiadau anffafriol. Mae hyn yn lled gyffredin heddiw, oherwydd mae'r wasgfa ddiwydiannol wedi creu hafog ymysg y gweithwyr a'r meistri.

Digalon i'r eithaf i'r "fyddin ddiwaith" ydyw wynebu toriad gwawr, ddydd ar ôl dydd, ac wythnos ar ôl wythnos, gyda'r ymdeimlad nad oes obaith am dro o waith yn unman.

Mewn cyfnod y mae ynddo gymaint o blesera, diflas iawn ydyw teimlad y dyn ieuanc diwaith pan wêl ei gyfoedion, sydd yn fwy ffodus nag ef, yn ymblesera, ac yntau heb geiniog yn ei boced i gael un math o bleser (yr hyn a ystyrir yn bleser heddiw, beth bynnag). Credaf fod hyn yn ei yrru allan o'i bwyll, ac yn ddiameu, dyma sydd i gyfrif am yr holl ladrata, a llofruddio, a thorri i dai sydd yn y byd heddiw.

Mae ymdrech llawer meistr gwaith wedi mynd yn fethiant hefyd oherwydd y "wasgfa", a llawer meddwl cydwybodol sydd wedi ei daflu i ddyryswch.

Y farn gyffredin ydyw, mae'r rhyfel diwethaf sydd yn gyfrifol am y trychineb hwn. Credaf fod dyfeisiau Gwyddoniaeth yn euog i raddau helaeth hefyd. Peirianwaith yw arwyddair y Gwyddonydd, ac oherwydd cyflymdra gallu cynhyrchiol y peiriant, gwthir y gweithiwr i'r cysgodion. Dywed rhai y bydd dyn cyn hir yn anghofio'r ffordd i ddefnyddio ei draed, am fod cerbydau o bob ffurf a maintioli at ei wasanaeth. Hyd yn oed heddiw, mae lluoedd bron anghofio'r ffordd i ddefnyddio eu dwylaw, yn herwydd mabwysiadu'r peiriant, ac yn wir, ymddengys i mi y byddwn oll yn anghofio'r ffordd i siarad ac i feddwl cyn hir, oblegid mae'r di-wifr yn y gornel yn siarad ac yn meddwl drosom. Mae'n berigl i ni golli ein personoliaeth yn swyn y peiriant. Byddai hynny yn drychineb, gan fod pob dyn wedi ei freintio â gallu i feddwl ac ymresymu drosto'i hun.

Cwyn gyffredinol y dydd ydyw fod yr oes yn dirywio. O wrando ar y gŵyn, naturiol ydyw i ni edrych o gwmpas, er mwyn gweled a oes sail iddi. Rhaid cymryd i ystyriaeth fod cyfnodau yn gwahaniaethu yn eu harferion a'u hymarweddau. Mae gan y Sais y dywediad—"Other times, other manners" Eto'i gyd, nid oes modd cyfiawnhau dirywiad moesol a chymdeithasol mewn unrhyw gyfnod.

Ychydig amser yn ôl darfu i mi fynd allan am dro i'r dref ar brynhawn Sadwrn, a gwneuthum gofnodiad o'r hyn a welais ar fy nghrwydr. Cyn i mi fynd ond ychydig lathenni o ddrws fy nhŷ, gwelwn haid o fechgyn cymharol ieuanc yn dod yn fy erbyn, ac yr oedd pob un ohonynt yn arwain milgi. Ychydig yn nes ymlaen dyna haid arall o fechgyn yn dod, y rhai hyn eto yn arwain milgwn, a phob ci wedi ei wisgo mewn cwrlid gwresog. Nid oedd eisieu gofyn i ble yr oeddynt yn mynd, gan eu bod a'u gwynebau tuag at " redegfaes y milgwn ", lle y cyrcha'r torfeydd er mwyn betio arnynt.

Y peth nesaf dynnodd fy sylw oedd rhês enfawr o blant o bob oedran yn sefyll tuallan i'r darlundy, yn disgwyl am agoriad.

Mewn rhan arall o'r dref gwelwn fintai fawr o bobl yn tynnu tua chae y bêl droed.

Yma a thraw ar hyd y dref gwelwn ddyn yn mesur yr heol, fel pe bae wedi ei daro gan " ergyd yr haul," hawdd oedd canfod ei fod wedi cyfranogi'n rhy helaeth o ffrwyth y brâg.

Wel, nid golygfeydd anarferol yw'r rhai hyn heddiw. Nid oes rhedegfeydd ceffylau yn ein tref ni, ond y maent yn boblogaidd iawn yn ein trefi mawrion.

Gan na welaf ddaioni yn yr arferion hyn, galwaf hwy yn ddrygau, sef hap-chwarae, meddwdod, a dilyn gwag bleserau.

Y drwg sydd yn ennill tir gyflymaf heddiw ydyw hap-chwarae, mae'r duedd wedi ymdaenu fel llwydrew deifiol dros yr holl fyd. Mae rhyw flys rhyfeddol wedi meddiannu'r ddynoliaeth am arian heb weithio amdanynt. Gwelir rhyw fudiad neu gilydd yn cyflunio cynghyngwystl yn barhaus er mwyn tynnu arian i chwyddo'r drysorfa. Yna gwelir y dwymyn yn lledu i'r newyddiaduron ; ychydig ohonynt argreffir yn awr heb ryw gystadleuaeth ariannol ar eu tudalennau. Yna, llusgir y ceffyl, a'r ci, a'r cardiau, a phob math o chwaraeaeth i grafangau'r gelyn hwn.

Clywais rywun yn gofyn—" Pa ddrwg sydd mewn betio ? " Credaf fi fod llawer o ddrwg ynddo. Mae llawer cartref yn ein gwlad yn dyst o hyn. Bydd y tad yn gwario ei enillion ar y betio, gan feddwl cael mwy yn ôl, ond ansicr iawn ydyw ffawd, ac fel rheol, cyll y cwbl, a'r canlyniad yw cartref llwm, plant carpiog, ac anedwyddwch yn teyrnasu.

Mae'r bobl ieuainc, yn fechgyn ac yn ferched, yn euog o'r drwg hwn, gwariant eu harian, fel nad oes ganddynt ddim i gyfrannu at achosion teilwng, ac nid ydynt yn feddiannol ar yr wy addod hwnnw sydd mor fendithiol pan ddaw'r diwrnod garw.

Wel, sut mae symud y drwg hwn ynte ? Gwyddom oll mai haws yw gofyn cwestiwn na'i ateb. Eto, credaf nad amhosibl ydyw ateb y cwestiwn hwn. Mae'n amlwg nad buddiol apelio at synnwyr cyffredin y ddynoliaeth, oherwydd y mae digon o

bregethu a chynghori o bulpudau a llwyfannau ein gwlad yn barhaus.

Pan fetho dyn reoli ei hun, mae'n bryd i'r Llywodraeth ddod i'r adwy. Mewn cartref lle y bydd plentyn bach ar yr aelwyd, bydd y fam, os yn ddoeth, yn symud y pethau peryglus allan o'i afael, rhag iddo ei niweidio ei hun, am nad yw'r plentyn yn sylweddoli'r perigl o chwarae â hwy. Dylai llywodraeth ein gwlad actio'n fam i'r bobl sydd â gormod o'r plentyn ynddynt i osgoi perigl. Yn y lle cyntaf, dylai basio deddf i roi terfyn ar bob math o hap-chwarae, ac wedyn, carcharu pob un a dorrai'r ddeddf. Ni fyddai'r betiwr mwyaf eiddgar yn hoffi'r syniad o brofi caethiwed y carchar.

Gyda golwg ar feddwdod, y farn gyffredin ydyw, nad oes cymaint o feddwi ag a fu. Mae hyn yn newydd cysurlawn. Er hynny, gwelir clybiau yn agor yn barhaus yn y dref; mae'n rhaid fod rhywrai yn yfed gwirodydd. Dywedir bod y clybiau yn lladd masnach y tafarnau, oherwydd eu bod yn fwy preifat, ac yn mwynhau mwy o ryddid, ac yn cael gwerthu diod ar y Sul. Nid yw hyn yn swnio'n uchel iawn am werin gwlad wareiddiedig.

Gwelir llawer o feddwon yma a thraw ar hyd y dref, ac i'm tyb i, 'does dim yn fwy gwrthun na gweld dyn meddw yn ymlusgo tua thref gan honcian o " bared i bost ", fel y dywedir. Mae'n syndod fod dyn sydd wedi ei ddonio â synnwyr cyffredin yn goddef i'r gelyn gwenwynig hwn ei drechu, a difa ei logell, a gwneud ei gartref a'i deulu yn llwm a charpiog. Ceisia rhai pobl gyfiawnhau'r meddwyn trwy ddweyd nad yw ei amgylchfyd, na'r tŷ y triga ynddo yn anogaeth iddo fyw bywyd da. Clywais ddadleu unwaith " Pa un ai dyn sydd yn gwneud ei amgylchfyd, neu'r amgylchfyd sy'n gwneud y dyn ". Yn sicr gan fod dyn wedi ei greu ar lun a delw Duw, dylai ei brofi ei hun yn fwy na'i amgylchynedd. Mae'n wir bod tai gweddus yn help i fywyd gweddus, ond beth am bendefigion ein gwlad, a drigant mewn palasau gorwych, a phrydferthwch natur yn gwenu o'u cwmpas.

Gallasem feddwl y dylai gwyrddlesni'r meysydd, a gwên y rhos, a phurdeb y lili gadw unrhyw ddyn rhag pethau halogedig a dinistriol. Nid felly y mae; ymffrostiant hwy yn llawnder eu seleri o winoedd hen, ac o bob math o ddiodydd meddwol. Mae hyn yn brawf nad cyflwr allanol dyn sy'n cyfrif, ond ei gyflwr mewnol.

Sut mae symud y drwg hwn ynte? Gan fod yr unigolyn yn rhy wamal i wrthsefyll y demtasiwn i ddiota, dylai'r llywodraeth symud yn y mater hwn eto. Dangosodd Cyn-lywydd Unol Dalaethau yr Amerig ei bod yn bosibl i roi terfyn ar yfed cwrw. Trodd y wlad yn " sych " heb fawr helynt na thwrw. Yn sicr, os gall un llywodraeth wneud hynny, gall pob llywodraeth ei

wneud. Y mae esiampl dda yn werth ei hefelychu. Ni welaf un ffordd i sobri'r meddwyn ond trwy orfodaeth, gan fod pob cyfrwng arall wedi methu, a goreu po gyntaf y gwelir deddf yn cael ei phasio i ysgubo'r ddiod feddwol allan o'r wlad, a throi pob darllawdy yn ysgol, er mwyn codi ysgolheigion yn hytrach na meddwon.

Ynglŷn â'r darlundy, sef un o wag-bleserau y cyfnod, gallasai fod o wasanaeth mawr i ddyrchafu dynoliaeth pe dygid ef ymlaen ar linellau glan ac iach, ond mae'r sefydliad yn syrthio ymhell iawn o'r nôd. Anaml iawn y ceir darlun sylweddol ynddo. Rhywiol a brwnt yw'r darluniau a ddangosir yn barhaus. Cymer y bobl ieuainc gymaint diddordeb yn y darlundy fel y mynychant ef bron bob nos. Mae'n rhaid fod y darluniau yn gadael eu heffaith ar y rhai a'u dilynant yn gyson.

Un diwrnod, cyfarfum a gwraig mewn siop ; gofynnodd i mi a fyddai gwahaniaeth gennyf iddi hi gael ei neges o mlaen, am ei bod mewn brys i fynd i'r darlundy. Cafodd ei dymuniad. Credwn ei bod yn ei haeddu am ei glewder, canys yr oedd yn mynd â baban tri mis oed gyda hi i'r darlundy, ac yr oeddwn yn teimlo'n falch mae hi oedd yn mynd ag ef, ac nid myfi. Moeswers y digwyddiad ydyw—bod plant yn cael eu trwytho yn y darluniau o'u babandod i fyny. Nid rhyfedd eu bod yn mynd yn gaethion i symudiadau gwag y cynfas. Maent yn adnabod yr holl chwaraewyr wrth eu henwau. Pe gofynnid iddynt enwi rhai o brif bregethwyr, neu feirdd, neu gantorion Cymru, byddent yn hollol anwybodus. Y drwg yw, ni chymerant ddiddordeb mewn sefydliadau dyrchafol, ac o ganlyniad, nid yw eu cymeriadau'n datblygu yn y cyfeiriad iawn. Mae'r gwrthrychau y cymerwn ddiddordeb dwfn ynddynt yn lliwio ein cymeriad, ac fel bodau moesol a rhesymol, ein dyletswydd ydyw tynnu lliwiau prydferthaf y cread i mewn i'n bywydau, fel bo ein cymeriad yn llewyrchu mewn cymdeithas fel llusern yn nhywyllwch y nos.

Mae'n anodd iawn meddwl am gyfrwng effeithiol i symud gwag bleser y darlundy o'r ffordd Credaf fod gan y cartref a'r aelwyd lawer i wneud â'r mater. Dylai rhieni fod yn ofalus iawn parthed eu hesiampl i'w plant. Dylent gefnogi achosion a sefydliadau adeiladol, a dylent argraffu ar feddyliau eu plant y fantais o gefnogi y cyfryw, ac hefyd yr anfantais o ymhyfrydu mewn gwag bleserau. Mae angen hyfforddiant ar blentyn pan fydd yn cychwyn ar daith bywyd.

Nid oes un rheswm dros agor y darlundy dair gwaith bob dydd, ag eithrio'r Sabath. Byddai dwy waith yr wythnos yn eithaf digon, os oes rhaid ei agor o gwbl. Byddai hynny'n fantais i ieuenctid er eu diddori eu hunain mewn rhywbeth mwy sylweddol.

Mae yna lawer o bleserau ereill a gaiff ormod o sylw, yn y dyddiau hyn, sef dawnsio, paffio, a chicio'r bêl droed. Nid oes

niwed mewn chwarae glân yn ei le, ond tuedd yr oes ydyw gorwneud pethau. Mae'r tân yn ddefnyddiol iawn fel gwas, ond pan elo'n feistr, 'does dim yn fwy dinistriol. Mae'r un ffaith yn wir am ddŵr. Cadw pethau yn eu lle sydd eisieu.

Mae dyn wedi ei freintio â gormod o urddas i'w wneud ei hun yn gaethwas i wag-bleserau. Disgwylir oddiwrtho yn ôl y breintiau y mae wedi eu derbyn.

Ymddengys safle cymdeithas heddiw fel pe bai mewn angen am ddiwygiad cyffredinol. Y mae rhyw ysgafnder a difaterwch wedi meddiannu'r oes, nid yw ieuenctid yn cymryd bywyd yn ddifrifol. Oni newidiant eu rhagolygon ar fywyd cyn hir, beth fydd cyflwr yr oes nesaf?

Ond paham y gofidiwn? Nid yw Duw yn cysgu, eithr Efe a enfyn Ei angylion yn Ei amser da Ei Hun, i dynnu'r llen yn ôl oddiar ddallineb moesol y byd, fel y delo'r ddynoliaeth wyneb yn wyneb â Christ—y Patrwm Perffaith.

Llanelli. A. Rees.

Pa beth a gred yr Iddewon?

Pobl ddiddorol ydyw'r Iddewon, pobl amlwg yn hanes datblygiad y meddwl dynol, a phobl ar y blaen ymhob oes mewn moeseg a chrefydd.

Y mae'r genedl bellach ar wasgar dros bum cyfandir, ac ers dwy fil o flynyddoedd nid aeth canrif heibio heb i laweroedd o hil Abram syrthio yn ysglyfaeth erledigaeth lem yn rhyw ran o'r byd Cristionogol.

Heb fanylu dim ar hanes pobl yr astudir ei llenyddiaeth gynnar, Sul a gŵyl, yn eglwysi, capeli a chartrefi Cymru, gadewch inni weld pa beth, o ran proffes a chredo, ydyw safle bresennol y genedl yr hanodd Iesu Grist ohoni.

Ymddengys na bu erioed gan yr Iddewon gyffes ffydd swyddogol, ac anodd ydyw dweyd yn gywir pa beth a gredant, oherwydd na cheir hwynt yn credu yr un pethau i gyd, ac oherwydd hefyd na chred llawer ohonynt mewn dim.

Gellir rhannu'r genhedlaeth bresennol o Iddewon, o ran crefydd, yn ddau ddosbarth, y mwyafrif yn Union-gred, a'r lleiafrif yn Rhyddfrydig.

Ar ganolbwynt eu cred, sef undod Duw, fe gytunant i gyd,—Yr Arglwydd dy Dduw, Un Arglwydd yw. Credant Ei fod ar yr un pryd yn gariadlawn ac yn gyfiawn, yn holl-alluog ac yn llawn trugaredd. Nid cred rwydd ydyw, oherwydd anodd yw cysoni'r pethau a gynhwysa.

Ceidw yr Union-gredwyr ymlaen holl draddiodau'r tadau, a gosodant bwys mawr, y pwys mwyaf, efallai, ar gyflawni'r defodau manwl ynglŷn ag addoli, ymolchi, bwyta, etc.

Ni chondemnir mo'r cyflawniadau hyn yn hollol ychwaith gan yr Iddewon rhyddfrydig, ond edrychant arnynt fel moddion tuag at adeiladaeth ysbrydol, ac nid fel nod ac amcan. Derbynia'r dosbarth hwn oleuni gwyddor ar y greadigaeth, ac ni chredant mewn gwyrthiau. I'r rhain, nid casgliad o ffeithiau hanesyddol ydyw'r hen Destament, ond trysorfa o ysgrythurau ysbrydol. Gwelant fod ôl troed datblygiad yn amlwg yn y Beibl, ac fod yna ganrifoedd o dŵf wedi pasio rhwng. Y llygad am lygad, yn Ecsodus, a Chân dy gymydog fel ti dy hun, yn Lefiticus.

Ymha wedd yr edrycha'r Iddewon heddiw ar Iesu? Dyma gwestiwn o bwysigrwydd a diddordeb.

Ni chred neb ohonynt mai Iesu yw y Crist. Disgwylia'r Iddewon uniongred eto am ddyfodiad y Messiah, ac er na chytuna'r dosbarth rhyddfrydig â hwynt yn hollol, fe edrychant hwythau ymlaen hefyd at ryw *oes* Fessianaidd, er nad am *berson* felly; fe ddaw honno, meddent hwy, trwy ymdrech dynoliaeth, yn gweithredu o dan gyfarwyddyd Duw.

Tuag at Iesu Grist fel *dyn*, fe gymer Iddewon i fyny wahanol safbwyntiau a gwerthfawrogir ef yn uwch gan rai na chan ereill. Gwêl rhai ohonynt ynddo Israeliad mawr, o lin yr hen broffwydi, ac nid oes dim na allant dderbyn yn ei addysg ysbrydol a moesol. Eithr oherwydd y ddiwinyddiaeth sydd wedi ei wneuthur yn rhywbeth uwch na dyn, ni all Iesu byth fod yn broffwyd i'r Iddew ac yn Fessiah i'r Cristion.

Fe gred yr Iddew uniongred yn adgyfodiad y corff, ac y mae anfarwoldeb yr enaid ers dau can mlynedd cyn geni Iesu yn un o bynciau ffydd y mwyafrif o'r genedl. Credant fod dyn yn anfarwol am fod Duw yn dragwyddol, ac fe ddeil rhai fod yna wobr a chosp ynglŷn ar ystâd ddifarw tuhwnt i'r bedd, tra yr ymfodlona ereill ar y gobaith y datblygir yno'r bersonoliaeth a sylfaenir yma.

Rhydd yr Iddew bwys mawr iawn ar weddi, fel y cyfrwng a ddwg Duw a dyn i'r berthynas agosaf i gyd a'i gilydd. Mewn gweddi, medd yr Iddew, y mae pob dyn yn gyfrwngwr rhwng Duw ag ef ei hun, ac yn eiriolwr ar ei ran ei hun.

DECHRAU'R FLWYDDYN.

Dechrau'r Flwyddyn sy'n sonio—am fyw,
Am 'fynd', ac am fwstro;
Heddiw, mewn nudd, mae'n addo
Â heulwen fraf lanw y fro.

Cledlyn.

Pwy oedd Confiwsius?

Bum can mlynedd cyn geni Iesu yr oedd yna henwr doeth yn byw yn China, o'r enw Confiwsius. Credai o waelod ei galon mewn cydfod rhwng dyn a dyn, a heddwch rhwng gwlad a gwlad ; casheai ryfel a therfysg â chân perffaith.

Barbaraidd ac isel iawn ar raddfa gwareiddiad oedd ei gydoeswyr yn China, a chan fod Confiwsius wedi ei ddonio â chynheddfau cryfion ac wedi cael manteision gorau'i oes i'w gwrteithio, fe deimlai yn ei fynwes ryw awydd angherddol am ddyrchafu a llesoli ei genedl.

Yr oedd dewiniaeth ac ofergoeledd mewn bri mawr yn China o ben-bwy-gilydd, ac fe gredai'r werin mewn ' ysbrydion drwg ', yn anad dim. O dan fflangell eu coelion ofer, yr oedd y bobl yn wastad mewn dychryn, a cheisiodd Confiwsius eu tawelu trwy resymu â hwynt.

Dim ond dyn cyffredin, syml a charedig, craff a synhwyrol, ydoedd Confiwsius. Crwydrai'n unig o bentref i bentref, heb geisio na chanlynwyr nac addolwyr, a cheisiai hyfforddi'r anwybodus pa le bynnag yr âi. Ni phroffesai ei fod wedi cael un ' weledigaeth ' oruwch-naturiol ; ni chlywodd ' leisiau ' ; ni welodd ' ryfeddodau ', ac ni chyflawnodd ' weithredoedd nerthol ' na ' gwyrthiau '.

Nid oedd dim yn cithafol nac yn gyffrous yn ei athrawiaeth a'i gyfundrefn newydd o fywyd ; ei nefoedd ef oedd y tawelwch meddwl a ddaw trwy weithredu yn unol â'r hyn a ddywed cydwybod ydyw ffordd iawn.

Croesawid Confiwsius fel gwaredwr ei genedl, a thyrrai'r bobl yn ewyllysgar i'w wrando. Dysgodd hwynt i *barchu* eu rhieni, ond wrth ddilyn ei genadwri fe aethant hwythau i'r eithafion o *addoli* eu rhieni ; yn wir, gydag amser fe ddaeth addoliad o'r hynafiaid yn un o brif nodweddion crefydd y Dwyrain.

Gydag amser hefyd, ar ôl marw o'r athro mwyn, fe'i dwyfolwyd gan ei ganlynwyr, ac fe godwyd teml i'w barchu a'i addoli ymhob dinas a thref, ac ymhob pentref a phlwy, trwy gyrrau China fawr y Dwyrain Pell.

Ar addysg Confiwsius, i raddau helaeth iawn, y sylfeinir bywyd crefyddol a chymdeithasol China. Nid oedd yn ei athrawiaeth ef, mwy nag yn yr Hen Destament, unrhyw grybwylliad am fywyd tuhwnt i'r bedd, ond yr oedd ynddynt lawer o sôn am wobr a chosp yn y bywyd sydd yr awr hon.

Diwygiwr mewn gwladweiniaeth ydoedd ef yn bennaf, a'i brif bynciau oedd moesoldeb ymarferol a gonestrwydd unplyg rhwng dyn a dyn. Yn ôl ei athrawiaeth ef, y fusnes bwysicaf mewn

bywyd i bob dyn ydoedd ei wneuthur ei hun mor ddaionus ag oedd yn bosibl.

Fel Socrates, fe gredai ac fe ddysgai Confiwsius mai canlyniad anwybodaeth ydyw drygioni, a bod gwybodaeth yn arwain dyn i fod yn foesol lân, ac yn rhinweddol ei fuchedd.

Daliai Confiwsius fod natur dyn yn wreiddiol dda, ac nad oes eisiau ei datblygu ar linellau iawn cyn ei dwyn i'w pherffeithrwydd.

CLEDLYN.

TRYSORAU.

Mi wyliais wau sidan-wê frau
Fel nydden lâs ar wŷdd :
Ac heb yn wybod dygais ddau
Edefyn hongiai'n rhŷdd.

Mi welais do ! yn nyfnder lli'
Wawr Haf mewn awyr lâs,
A dygais lon'd gwniadur fach
O'i naws i dorri f' iâs.

Mi ddringais gyda'r awel fwyn
Y tŵyn tan flodau'n frith,
Oddiyno dygais gof am sawr
Mil meillion mân tan wlith.

Mi glywais chwardd blentynaidd fyw,
A chuddiais hwnt i'r llwyn,
A deliais oglais miwsig hud
Tan edyn awel fwyn.

Troais i gylch y Tylwyth Teg,
'Mysg llygaid dydd diri',
Ac yno'n gwau'r trysorau 'nghyd
Mi nyddais gân i chwi.

" NANCE, Dihewyd."

TROSIAD O DANIEL DDU.

CONTENTMENT, I oft round my cottage thee see,
Thy sweet sister Patience linked dearly with thee ;
My gaze fondly lingers on thine gentle mien,
And life's to me sweeter than e'er it hath been.

Teach me to prize rightly the joys of this life
And see 'yond the pain, the end of the strife ;
And unto the hills to lift up mine eyes,
Where honour awaits with my Father betimes.

And let me consider how great is my debt
For blessings of all kind that aye me beset,
And when for my sins I am chastised aright
Oh ! Teach me to bear, and to grow more upright.

" NANCE, Dihewyd."

Adran yr Ysgol Sul.

MAES LLAFUR.

Safon I (I rai dan 10 oed). Ar Lafar.

I.—O'r "Holwyddoreg" gan y Parch. D. Evans. Rhan I., gwaith yr Ail Flwyddyn.

II.—Dysgu'r Emyn: "Duw sydd gariad". Rhif 426 yn y Perlau Moliant

Safon II. (I rai dan 13 oed). Ar Lafar neu yn Ysgrifenedig.

I.—Yr Emyn, "Yn y Groes y gorfoleddaf," yn Gymraeg ac yn Saesneg, a hanes yr Awdur (Syr John Bowring), gweler "Memorable Unitarians".

II.—"Hanes Iesu i Blant", gan y Parch. T. Oswald Williams, M.A. Penodau VIII—XIII.

Safon III. (I rai dan 15 oed).

I.—"Hanes Iesu i Blant."

II.—Hanes Moses, gweler "Bible Stories Retold," gan Dr. Brooke Herford.

Safon IV. (I rai dros 15 oed).

Syniadau Undodaidd am y Beibl, am Dduw, ac am yr Iesu (gweler "The Beliefs of a Unitarian" gan y Parch. Alfred Hall; tudalennau 21—64.]

Nodiadau.—Dydd yr Arholiad, Sadwrn, Ebrill 18fed. Yr ysgrifenedig yn unig a gyfrif yn y gwobrwyo.

S. E. Bowen, *Ysgrifennydd.*

Adolygiadau.

Life in Palestine when Jesus lived. J. Estlin Carpenter, D.D. 5th (Revised) Edition. Lindsey Press. 2s.

Tybed a oes rhai copiau o'r argraffiadau cyntaf o'r llyfr hwn yn llyfrgelloedd ein capeli a'n hysgolion Sul Cymraeg heddiw. I lawer o ddarllenwyr yr Ymofynnydd nid oes angen ei gymeradwyo. Mae'r ffaith fod Gwasg Lindsey wedi cyhoeddi argraffiad newydd yn profi fod galw cyson am dano. Yn wir, mae'n anodd meddwl am lyfr bach mwy defnyddiol ac awdurdodol i'r sawl sydd am wybod rhywbeth am gefndir yr efengylau. Ceir ynddo benodau cynhwysfawr ar wlad Palesteina a'i phobl; ar lywodraeth y wlad a'r drefn gymdeithasol, ac ar grefydd yr Iddewon. Y bennod werthfawrocaf o'r oll ydyw'r bennod sy'n ymdrin â'r Gobaith am y Meseia. Mae'r wybodaeth geir yn y bennod hon yn wir angenrheidiol er deall meddwl yr Iesu ac atitiwd yr Iddewon tuag ato a'i ddysgeidiaeth.

Mae yr argraffiad yma wedi ei gywiro, lle mae hynny yn angenrheidiol yng ngoleuni gwybodaeth ddiweddar. Ceir gyda phob pennod restr werthfawr o lyfrau fyddai'n ddefnyddiol i fyfyriwr sydd am astudio'n fanylach y pynciau yr ymdrinir â hwynt.

Dylai gweinidogion ac arolygwyr ein hysgolion Sul gymell y llyfr rhad hwn yn wresog ar athrawon ieuainc ac aelodau y dosbarthiadau hynaf yn ein hysgolion.

Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Adroddiad Blynyddol, 1934—35.

Cyflwynwyd yr adroddiad hwn gan gyngor y Llyfrgell i Lys y Llywodraethwyr ym mis Hydref 1935. Ceir ynddo doreth o ffeithiau diddorol a defnyddiau ffeithiau ddygant dystiolaeth ddiamwys i'r gwasanaeth mawr rydd y Llyfrgell i'r genedl. Pleser ydyw darllen fod sefyllfa ariannol y Llyfrgell yn foddhaol, ac yn enwedig i'r Trysorlys ychwanegu ei rhodd-gynorthwy'r Llyfrgell i £17,000. Diddorol hefyd ydyw clywed y bydd i'r adeilad newydd yn debyg o gael ei gwblhau yn ystod 1936.

Adroddir mai yr Eglwys Bresbyteraidd yng Nghymru yn unig ymhlith yr enwadau sydd wedi penderfynu yn swyddogol i roddi llawysgrifau hanesyddol a choflyfrau yr enwad i'r Llyfrgell.

Ceir rhestr hirion o roddion a phryniadau a llyfrau a llawysgrifau i'w cadw ddaeth i feddiant y Llyfrgell yn ystod y flwyddyn. Ceir manylion hefyd am nifer y llyfrau, llawysgrifau, mapiau, etc. ddefnyddiwyd gan ddarllenwyr yn ystod y flwyddyn. Yn adran y llyfrau argraffedig yn unig defnyddiwyd dros bum mil a deugain o lyfrau gan tua naw mil o ddarllenwyr.

Adroddiad o flwyddyn o lafur caled a defnyddiol dros ben.

The Story of an Old Meeting House. J. M. Connell. Longmans.

Gweinidog yr Undodiaid yn Lewes, Sussex, ydyw awdur y llyfr hwn, a chapel yr Undodiaid yn Lewes ydyw'r "Hen Dŷ Cwrdd" y sonir amdano. Dywed yr awdur yn ei ragair, fod stori yr Hen Dŷ Cwrdd hwn yn debyg iawn i hanes tua dau cant o hen addoldai cyffelyb yn y wlad. Amcana roddi gwybodaeth helaethach o'i hâchau ysbrydol i bobl sydd yn addoli yn y capeli yma, a'u galluogi i ddeall yn well yr achosion barodd i Galfiniaeth eu cyndeidiau roddi lle i'r Undodiaeth a'r Gristionogaeth Ryddfrydig bregethir o'u pulpudau heddiw. Mae ei stori mor ddiddorol fel y'n temtir i ddyfynnu yn helaeth. Ond gwell yw cymell pwy bynnag sydd a chanddo ddiddordeb yn hanes crefydd rydd i brynu y llyfr bach hapus hwn. Mae ynddo hanesion swynol dros ben am restr hir o weinidogion, o amser Deddf Unffurfiaeth yn 1662 i lawr i'r amser presennol. Hyd y gwelir nid oes yma "esboniad" ar y newid o Galfiniaeth i Undodiaeth, ond yr esboniad cyfarwydd—adeiladu addoldy ar yr *Open Trust*—a'r gweinidogion a'r gynulleidfa yn eu rhyddid yn raddol ond yn sicr yn gwrthod yr hen athrawiaethau ac yn coleddu egwyddorion crefydd resymol. Hanes gwir swynol, gan un o weinidogion hynaf yr enwad yn Lloegr, yntau yn ŵr hynaws ac o feddwl gwir ryddfrydig.

Marwgofion.

Collodd Eglwys Pantydefaid un o'i aelodau henaf drwy farw MARGARET THOMAS, Ffynnonwen, Tregroes, a hithau wedi cyrhaedd ei 76 mlwydd oed. Dyddiad y claddedigaeth oedd Ionor 14. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. J. Marles Thomas, M.A., ac yn y capel ac ar lan y bedd gan ei Gweinidog. Ceisiodd yr olaf bregethu yn ei hangladd ar y testun: "Yn y byd gorthrymder a gewch: ond cymerwch gysur; myfi a orchfygais y byd". Treuliodd ein diweddar chwaer fywyd gonest a llafurus a gadawodd ar ei hôl mewn galar dwys briod a dau o blant, un ohonynt ydyw Mr. James Thomas, Aberystwyth. Duw y Cariad a fyddo yn nodded iddynt yn eu hiraeth.

Ionor 21, yn bur annisgwyliadwy, ELIZABETH HANNAH GRIFFITHS, Nantygwydde, Llandysul, yn 46 oed. Merch o gyfansoddiad iach bron uwchlaw'r cyffredin oedd y chwaer hon, ond achwynai ryw ychydig am ryw bedwar niwrnod cyn ei marw ac yna yn bur ddisymwyth pryd na feddyliwyd fod yna unrhyw berygl ffarweliodd gan adael chwaer a brawd i wylo ei cholli. Mae llawer o chwalu wedi bod ar y cartref yma yn ystod y blynyddoedd diweddaf hyn. Dyma'r pedwerydd i ffarwelio. Merch dda, ddiwyd oedd Lizzie—yr oedd yn dda gyda gwaith y tŷ a'r fferm. Merch gartrefol ydoedd ac anfynych y gwelid hi oddicartref. Teimlai'n fwy cysurus gyda goruchwylion y cartref na chyda dim arall. Mae'r brawd a'r chwaer wedi cael colled fawr. Yn ei marw hi hefyd collodd cynulleidfa Capel-y-Fadfa aelod a gymerai ddiddordeb mawr yn yr achos. Os wedi dianc erys yr adgofion amdani—am y wên siriol, y serchowgrwydd syml ac ysbryd caredig. Cladd wyd y Gwener dilynol ym mynwent Capel-y-Fadfa a gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins ; J. O. Jones (A), Pencae, a J. Marles Thomas, M.A.

Blin iawn cofnodi marwolaeth sydyn Miss SARAH EVANS, Tŷ'r Capel, Allltyplaca, yn 52 oed. Nos Iau, Ionor 23, yr oedd ar ei ffordd i gyflawni cymwynas yn Llwynbedw. Wrth ddrws y tŷ cafodd ei tharo yn glaf, ac erbyn oriau mân y bore yr oedd marwolaeth wedi y'i goddiweddyd. Cafodd bob gofal cariadus yn nhŷ ei chyfeillion. Yr oedd yn un o'r cymeriadau mwyaf trwyadl a gonest posibl, ac yr oedd nifer o'i chymydogion yn pwyso arni yn eu heisiau, a hithau mor barod i ateb pob galwad. Yr oedd ei ffyddlondeb gydai gwaith yn gofalu am y Capel yn eithriadol dda, a'i chariad at yr achos yn fawr iawn. Yn nheulu dedwydd Ty'r Capel yr oedd ei thad, yn awr yn llesg ac yn oedrannus, a'i nith, a chysurus iawn oeddynt gyda'i gilydd. Gadawodd hefyd bedwar brawd a dwy chwaer, a nifer luosog o geraint i alaru ar ei hôl. Mae iddynt oll gydymdeimlad cynulleidfa gyfan a chymdogaeth helaeth yn eu colled. Prynhawn dydd Llun daearwyd yr hyn oedd farwol ohoni ym mangre'r teulu yng Ngallltyplaca. Preifat oedd yr angladd a gwasanaethwyd gan y gweinidog, y Parch. S. E. Bowen, yng nghwmni y Diaconiaid.

Nodion yr Eglwysi.

HEN DY CWRDD, ABERDAR.—Prynhawn dydd Iau, Tachwedd 21, 1935, cynhaliwyd Gwyl De flynyddol dan nawdd Urdd y Benywod a daeth nifer luosog ynghyd i gyfrannu o'r danteithion. Yr ydym fel eglwys, yn teimlo yn ddiolchgar dros ben i'r Urdd am ei hymdrechion diflin dros yr achos. Gwnaethpwyd elw sylweddol o'r ymdrech yma, gan roddi help llaw bendithiol i drysorfa yr adgyweirio ac addurno yr hen gapel. Diolch o galon iddynt.———Nos Fawrth, Rhagfyr 31ain, 1935, cynhaliwyd y cwrdd arferol i anrhegu deiliaid yr Ysgol Sul. I ddechreu rhaid oedd cael cwpanaid o de a bara brith. Blasus iawn oedd y cyfan a baratowyd gan aelodau Urdd y Benywod. Credaf, mewn gwaith fel yma, eu bod yn ddiguro, canys heblaw paratoi ymborth blasus mae eu croesaw a'u gwynebau serchog yn rhwym o esgor ar fwynhad. Daeth lliaws ynghyd ; achlysur yw hwn sydd yn dwyn pobl tuallan i'n corlan ni i ymuno â ni am noson lawen wrth fod yr hen flwyddyn yn dirwyn i ben. Wedi gwneud dyletswydd a'r danteithion a'r te, cafwyd cwrdd adloniadol. Mr. D. T. Williams, Arolygwr yr Ysgol yn llywyddu yn ei ffordd hapus ef. Anrhegwyd y plant gan y gweinidog y Parch. E. R. Dennis. Gwelsom y rhif lawer yn fwy yn y gorffennol nag oedd y tro yma, ond hyn yw y gŵyn ymhob eglwys—rhif y deiliaid yn gostwng. Hyderaf y daw tro ar bethau ar fyr, a bydd pobl eto yn teimlo awydd mwy brwd at Ysgol Sul a Chapel. Wedi'r anrhegu cawd adroddiadau a chan-

euon, a chanu y berdoneg, a chafwyd datganiad gan aelodau Urdd y Benywod fel côr—y cyfan mewn hwyl dda. Wedi terfynu y rhaglen yma, awd at ddifyru y cwmni gan chwaraeon ; trefnwyd hyn gan Meistri Edgar Williams a James Ivor Davies, a llwyddodd y ddau frawd yma i hwylio llong difyrwch hyd derfyn yr hen flwyddyn. Yna ffurfiwyd cylch gan blethu dwylaw a chanu *Auld Lang Syne* a dymuno Blwyddyn Newydd Dda i'n gilydd ac yna adre yn sŵn y dymuniad da a chalonogol i deithio ein camrau drwy y flwyddyn oedd wedi gwawrio arnom.

ALLTYPLACA.—Rhoddodd Urdd y Benywod un waith eto wledd o *Christmas Tree* i'r Ysgol Sul a'r gynulleidfa. Y noson olaf yn yr hen flwyddyn y gwnaed hyn, a chafwyd cwmni lluosog a pharatoadau arferol dda ar eu cyfer. Ar ôl y wledd treuliwyd amser difyr gyda *games* a rhaglen o adroddiadau a chaneuon. Ar gynygiad Mr. Watkin Davies, arolygwr yr Ysgol Sul, rhoddwyd diolchiadau i Urdd y Benywod, ac i Mrs. Jones, Y Bryn am *oranges*, a Mrs. Williams, Penrallt-newydd am y Goeden.

CAPELYFADFA.—Nos Wener gyntaf y flwyddyn cafwyd *Social* hwylus iawn yn y lle hwn o dan nawdd yr Ysgol Sul. Daeth tyrfa fawr ynghyd a chafwyd noson gwir ddymunol. Trefnodd boneddigesau'r gynulleidfa ddigon o bethau da i'w bwyta yn ôl eu harfer. Y Tê drosodd gwobrwywyd y plant am ei ffyddlondeb gyda'r ysgol a chafodd pob plentyn rodd ddestlus oddiar y Goeden Nadolig. Actiwyd y Tad Nadolig gan Mr. Evan Lloyd Jones, Pantybryn. Yn ystod yr hwyr cafwyd adrodd a chanu gan y Plant. I Swyddogion yr Ysgol Sul yr ydym yn ddyledus am y noson lawen yma.

CAPEL-Y-BRYN.—Nos Wener, Ionor 10, ar groesawiad Urdd y Benywod, cafodd y gynulleidfa a'r Ysgol Sul noson lawen. Yr oedd paratoadau helaeth wedi y'u gwneud ar eu cyfer—ac yr oedd yn amlwg fod pawb yn mwynhau eu hunain. Ar ôl y wledd cyrhaeddodd *Father Christmas* ym mherson Mr. Tom Jenkins, Glynmeherin, i ddadlwytho'r goeden oedd wedi cael ei gwisgo mor llawn gan Miss Davies, Clarence House. Rhoddodd y plant a'r Côr dan arweiniad Mr. David Evans, Milrose Park, raglen dda. Mynegodd Miss Jones, Cross-hands, Llywydd yr Urdd, a Miss Jenkins, Tancoed ddiolchiadau'r Urdd i Miss Davies am ei haelioni ; i Miss Marian Davies, Troedyrhiw am roddion arbennig i'r plant bach ac i bawb oedd wedi cynorthwyo gyda'r gwaith. Llywyddwyd gan Mr. Emrys Rees, Ysgolfeistr.

RHYDYGWIN.—Nos Lun, Ionor 27, cynhaliwyd y Sosial Flynyddol yn y Festri. Daeth cynifer ynghyd fel yr oedd y lle yn llawer rhy gyfyng i'r oll. Cafwyd tê yn gyntaf, ac yr oedd y byrddau wedi eu llwytho ag amrywiol ddanteithion. Ar ôl hynny awd ati i gyflwyno *Silver Tea Service* i Miss A. Saunders Davies, Dolwern, fel cydnabyddiaeth o werthfawrogiad o'i gwasanaeth fel Ysgrifennydd yr eglwys am bedair blynedd. Diolchodd Miss Davies mewn geiriau detholedig a theimladwy. Ar ôl hynny cyflwynwyd Awrlais i Miss E. Thomas, Ffynnonoer fel arwydd o ddiolchgarwch aelodau Urdd y Benywod yn y lle am yr hyfforddiant a rydd iddynt mewn *Dressmaking*. Diolchodd Miss Thomas mewn geiriau cymwys iawn. Wedi hynny cafwyd areithiau gan Mri. David Evans, Cairo ; David Davies, Brynog ; David Evans, Tegfan, a Jenkin S. Davies, Arolygydd o dan y *Welsh Board of Health*. Ar ôl hynny rhoddwyd gwobrau i'r plant sydd yn mynychu yr Ysgol Sul. Treuliwyd y gweddill o'r amser i wrandaw ar y plant yn adrodd ac yn canu. Ymadawodd pawb wedi cael mwynhad mawr. Mae Mr. Thomas, Davies, M.R.C.V.S., Clyttau, wedi ei benodi yn Ysgrifennydd yr Eglwys.

CAERDYDD.—Y mae ambell i hen Fotor Car fel ambell i hen ŵr—mae mwy o anadl ynddo na ddywed yr olwg allanol arno. Ni aiff *Austin Seven* fyth allan o ffashwn, ac mewn hen Fotor Car o'r fath y cychwynais fy nhaith pwy ddydd i ddinas Caerdydd. Chwarae teg iddo ! Aeth â fi mor bell a Chaerfyrddin ond gwanhau wnai ei anadl fan honno, a rhag ofn iddo fethu ar y daith, a marw yn yr harnes, fel ambell i hen geffyl, penderfynais ymddiried yn y trên—oherwydd mae hwn o leiaf yn siwr o fynd i ben ei daith. Dydd Llun ydoedd, sef yr 20fed o Ionor—" Red Letter day arall yn hanes Eglwys Undodaidd Caerdydd. Cychwynwyd yr achos yno yn 1880, a saif yr adeilad hardd a elwir West Grove heddiw yn gofgolofn i'r ffyddloniaid fu yno'n addoli yn y dyddiau fu. Eglwys Saesneg ydyw, a theg yw cofio i Sir Aberteifi godi tri Gweinidog iddi allan o'r chwech fu yno'n gwasanaethu. Daeth tyrfa luosog ynghyd—nifer fawr o'r " Cefn " lle bu Mr. Jones yn gweinidogaethu—i ddymuno'n dda i'r Eglwys a'r Gweinidog newydd. Cymerwyd y rhan ddefosiynol gan y Parch. E. R. Dennis, Aberdâr, a thraddodwyd Siars i'r Gweinidog gan Dr. Henry Gow (cyn Brifathro Coleg Manceinion, Rhydychen), a Siars i'r gynulleidfa gan y Parch. Mortimer Rowe, B.A. (Ysgrifennydd y General Assembly). Nid oedd testun gan Dr. Gow ; siarad wnaeth ar ddyletswyddau gweinidog heddiw, yn hynod o fedrus a syml. " Gŵr ieuanc yw Mr. Jones," meddai, " sydd wedi gweled llawer o'r byd, ac wedi dysgu drwy y gweled, a daw i Gaerdydd ' to preach as a live man to a living people and not as a dying man to a dying people '." Hwyrach fod Dr. Gow yn llygad ei le. Rhaid dysgu dyn i fyw cyn y medr ddysgu marw. Dyna'r safbwynt Undodaidd onide ? Pregethodd y Parch. Mortimer Rowe ar y geiriau, " Nid chwi a'm dewisasoch i ond myfi a'ch dewisais chwi, ac a'ch ordeiniais chwi fel yr elech ac y dygech ffrwyth, ac yr arhosai eich ffrwyth." Apeliodd at aelodau'r gynulleidfa i fod yng ngwaith yr Eglwys mewn sêl a brwdfrydedd. Caled yw i'r gorau bregethu i seddau gweigion. Wedi'r cyfarfod sefydlu awd i'r neuadd islaw i fwynhau cwpaned o dê ac ymgomwest. Cododd y tê hwyl a chafwyd anerchiadau hapus ar y diwedd. Estynwyd llaw croeso i Mr. Jones a'i deulu gan gynrychiolwyr y Gynulleidfa, yr Ysgol Sul, ac Urdd y Benywod, a siaradwyd gan ddymuno'n dda i'r Gweinidog newydd a'r Gynulleidfa gan Mr. Geo. Payne (ar ran y S. E. Wales Unitarian Association) ; Mr. Lewis Edwards (ar ran Hen Dŷ Cwrdd, Cefn Coed) ; y Parch. V. M. K. James (ar ran Brawdoliaeth y Gweinidogion). Siaradwyd ymhellach ar ran y General Assembly gan Dr. Gow, y Parch. Mortimer Rowe, a Mr. Chancellor o Lundain. Diolchodd Mr. Jones yn ddeheuig ac effeithiol iawn i bawb ddaeth ynghyd—a fu'n siarad a phregethu. Bellach mae Mr. Jones wrth ei waith. Dymuna holl ddarllenwyr yr YMOFYNNYDD Dduw'n rhwydd iddo yn ei weinidogaeth newydd a bydded i lwyddiant ddilyn ei ymdrechion.—J.M.T.

Duw a'n cynorthwyo i fod yn feistri arnom ein hunain fel y gallom fod o wasanaeth i eraill.—A. Paterson.

* * *

Pan ddechreuo'r frwydr o'i fewn, mae dyn yn werth rhywbeth. Mae'r enaid yn dihuno ac yn tyfu. Parhaed y frwydr drwy gydol bywyd. Na rodder i fynu hyd y byd a ddaw.—Browning.

* * *

Pe gorfodid dyn i redeg ar ôl pob ensyniad, pob anwiredd, pob cam-awgrym a phob cam-esboniad ddygid i'w erbyn ni fyddai bywyd ar ei hyd ond hel chwain.—Henry Ward Beecher.

* * *

Un o'r pethau mwyaf rhyfeddol ym myd y meddwl ydyw'r modd y gall un pelydr o oleuni, un awgrym werthfawr, oleuo a bywiogi bywyd meddyliol yr hwn a'i derbynia.—Arnold Bennett.

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion, Gwasg Gomer, Llandysul.

A GOLDEN TREASURY OF THE BIBLE (and Apocrypha)
Edited by MORTIMER ROWE, B.A. assisted by Principal H. Mc LACHLAN, and DR. DOROTHY TARRANT. 1,033 pages cr. 8vo. **7/6** net (by post **8/-**). Leather bound, gilt edges, **10/6** (by post **11/-**). A book for every lover of great things in literature and life.

CHRISTIANITY AS A NEW RELIGION
By PERCY DEARMER, M.A., D.D., Canon of Westminster. Price **1/-** (by post **1/1**). (The 1935 Essex Hall Lecture). Many formal lectures still in print. Send for list.

THE ESSENTIALS OF CHRISTIANITY
By HERBERT J. ROSSINGTON, M.A., B.D. Price **1/-** (by post **1/1**). Cloth, **2/-** (by post **2/2**).

DOCTRINES THAT DIVIDE THE CHURCHES
By C. M. WRIGHT, M.A. Price **6d.** (by post **7d**).

CHRISTIAN EXPERIENCE
By G. RANDALL JONES, M.A., B.SC., B.D. This is No. 21 in the series:
RELIGION: ITS MODERN NEEDS AND PROBLEMS
Edited by RAYMOND V. HOLT, M.A., B.LITT. Twenty-one books of different titles and authors are now issued. **1/-** each (by post **1/1**).

Send for 24 page Prospectus with synopsis of the individual books.

The Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C. 2.

OS YDYCH AM RODDI ANRHEG AM FFYDDLONDEB I'R YSGOL SUL A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

"PERLAU MOLIANT"

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.

OVER CONFIDENCE

You are CERTAIN your eyes are perfect because you can see distant objects plainly.

Don't be TOO confident. Your eyes are certainly helping you to see clearly for the time being, but may be only straining delicate muscles and nerves to the utmost.

This strain causes eyeaches, headaches, tired sore eyes and a host of other complaints.

Properly fitted glasses will give your eyes the help they need and prevent the failure which is bound to come if you neglect them.

Make an appointment with me now.

Cecil Jones, F.B.O.A., F.S.M.C., F.I.O.

:: QUALIFIED OPHTHALMIC OPTICIAN ::

31, Great Darkgate Street

ABERYSTWYTH

TELEPHONE No. 209.